**<u>Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth MID 02-02(p)</u>**

**Dyddiad:** Dydd Gwener 8 Mawrth 2002

**Amser:** 10.30am hyd 1.00pm

**Lleoliad:** Canolfan Cymuned Tref-y-Clawdd, Tref-y-Clawdd

**CYNLLUNIO: CYFLAWNI DROS GYMRU**

1. Yn hanesyddol, bu YDCW yn gefnogol iawn i'r sustem Gynllunio Gwlad a Thref ac, yn wir, gyda'r CPRE, roedd yn llais cryf tu cefn i'w sefydlu, mwy neu lai yn ei ffurf bresennol, gyda'r Ddeddf Cynllunio, 1947.
2. Yn naturiol, felly, mae gan YDCW ddiddordeb mawr mewn unrhyw newid mewn sustem sydd wedi bod yn werthfawr iawn yn diogelu 'diddordeb y cyhoedd' mewn defnydd tir am dros hanner can mlynedd.
3. Y mae YDCW yn cytuno gyda'r farn gyffredinol bod angen gwella ond, ar yr un pryd, y mae yr un mor bendant bod angen cadw prif rinweddau'r sustem wreiddiol.
4. Teg yw dweud bod prif argymhellion y Papur Ymgynghori, ar y cyfan, yn llwyddo i wneud hyn, yn ogystal â chynnig rhai gwelliannau sydd i'w canmol.
5. Croesawir geiriau Gweinidog yr Amgylchedd yn y Rhagair, yn arbennig ei hymrwymiad i gadw strwythur sylfaenol yn ei le a hefyd cytunir gyda phrif bwyntiau y Cyflwyniad (para. 1).
6. O dan Polisïau a Chynlluniau, rydym yn cytuno gyda’r argymhellion i barhau gyda'r broses o integreiddio'r canllawiau sydd mewn bod ar hyn o bryd ac o'r farn y dylai Cynllun Gofodol Cymru gael statws statudol (para. 20). Rydym yn teimlo dylid rhoi arweiniad cryfach i gynllunio ar raddfa 'is-rhanbarthol' i sicrhau cysondeb ar draws Gymru.
7. Cytunir ag Opsiwn (b) ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol (para. 24) ond nid ydym yn hapus gyda'r disgrifiad "lleiafswm yn unig o gyfiawnhad" yn y bocs. Mae 'lleiafswm' yn gallu arwain at rai i bwysleisio nifer y geiriau yn hytrach na'r neges. Awgrymwn y *’cyfiawnhad angenrheidiol cryno'* o bolisïau.
8. Nid ydym yn gweld cyfiawnhad dros sefydlu Parthau Sefydlu Busnes (para. 30).
9. O dan "dulliau gweithredu" rydym yn cytuno bod angen amserlen i lunio Cynllun Lleol a hoffwn weld Opsiwn (b) yn cael ei fabwysiadu o dan para. 33. Rydym yn gefnogol i Ymchwiliad Cyhoeddus Lleol fel fforwm agored i drafod materion mewn manylder ond, mae’na le i ymchwilio camau posibl a fyddai yn gwneud Ymchwiliadau Cyhoeddus yn llai 'led- gyfreithiol' a gwrthdrawiadol.
10. Rydym yn falch o weld bydd y broses o lunio'r Cynlluniau Datblygu Unedol (CDU) presennol yn parhau, gyda'r newidiadau yn dod i rym yn dilyn mabwysiadu CDUau (para. 40).
11. Croesawn y Gwasanaeth Cynghori Cynlluniau Lleol ond hoffwn weld cyfeiriad penodol at fudiadau gwirfoddol fel rhan o'r broses (para. 45).
12. Rydym yn ymwybodol o'r syniad o drosglwyddo penderfyniadau o CADW i awdurdodau lleol

mewn rhai amgylchiadau (para. 49). Er yn gefnogol mewn egwyddor, nid ydym yn hapus i weld y newid trefn hwn yn mynd yn ei flaen ar hyn o bryd oherwydd diffyg adnoddau digonol mewn cymaint o awdurdodau lleol.

13. Nid ydym yn sicr o'r syniad o orfodi Ymgynghorwyr Statudol i ymateb o fewn 21 diwrnod (para. 53) gan ystyried bod angen gwybodaeth fanwl a chywir mewn nifer o amgylchiadau ac nid ydym yn cytuno y dylent godi tâl am eu cyngor.
14. Y mae YDCW yn hynod o falch i weld yr adrannau ar "Ceisiadau sydd yn cael ei hailadrodd" a "Cheisiadau Dwbl". Yn aml, gydag adnoddau mawr tu cefn iddynt mae gan ddatblygwyr fantais annheg wrth allu ail-gyflwyno neu wneud ceisiadau dwbl.(para.55/57).
15. Croesawn yn fawr y galw i roi rhesymau am <u>BOB</u> penderfyniad cynllunio (para. 61).
16. Nid ydym yn hyderus bod yr argymhelliad yn para. 67 yngln â therfynau amser yn ddigon clir a chryf. Dylid dweud yn ddigamsyniol nad yw cychwyniad bach ar y gwaith yn dilysu'r caniatâd (gan gofio ffiasgo Morfa Bychan).
17. Da yw gweld y galw am drafodaeth cyn ymgeisio (para. 72). Eisoes, y mae ambell i ddatblygwr yn trafod ceisiadau gyda YDCW a da fuasai gweld cyfeiriad i fudiadau gwirfoddol yma. Credwn fod hyn yn rhannol ateb y cwestiwn yngln a chymryd rhan yn para. 73 a buasai'n ychwanegu at y cyfle i annerch Pwyllgorau Cynllunio.
18. Y mae y mater o Awdurdodau Cynllunio yn codi am ddogfennau yn un anodd - dylai fod cysondeb ar draws Gymru, a dylai'r Cynulliad bennu cost uchafswm (para. 74).
19. Da yw gweld y cyfeiriad at 'Gwasanaeth Cymorth Cynllunio' a buasai YDCW yn falch o gael y cyfle i gymeryd rhan yn hyn, os yn bosib (para. 77).
20. O'n profiad ni, mae angen cael sustem hollol agored i benderfynu ar geisiadau gan Awdurdodau Lleol ac felly cefnogwn Opsiwn (a) yn para. 79 ac, yn yr un modd, dywedwn fod <u>RHAID</u> i aelodau gael hyfforddiant i fynd ar bwyllgor cynllunio (para. 82).
21. Anghytunwn yn gryf ar bwriad i beidio cyflwyno hawl y 'trydydd parti' i apelio. O dan rai amgylchiadau dylai'r hawl fod ar gael (para. 79).
22. Dylid dangos yn glir sut mae Awdurdod yn gwario'r ffi ar gais cynllunio. Yn aml mae YDCW yn teimlo bod y gwaith o ddadansoddi ceisiadau cynllunio'n cael ei wneud yn fwy trylwyr gan gorff gwirfoddol na'r awdurdod (para. 86).
23. Cwestiwn pwysig iawn sydd yn cael ei adael yn benagored yw 'Cynlluniau Mawr Strwythurol’. Dylai’r rhain ddod o dan hawl penderfynu y Cynulliad neu byddem yn gweld sustem dwy safon yn codi (fel gyda phwerdai dros 50MW) (para. 96).

(Dylid nodi mai sylwadau dros dro yw’r rhain gan fod YDCW yn dal i ymgynghori'n fewnol cyn llunio ymateb terfynol)

YDCW

Mawrth 2002.